# PAPURAU BUSNES

## Rhan I - Adran D

## Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar

## 5 Chwefror 2001

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**(Dangosir Rhif Gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros yr Amgylchedd

**Dafydd Wigley (Caernarfon);** Pa gyllid ychwanegol a fydd yn cael ei ddarparu (a) yn y flwyddyn ariannol 2000/2001, a (b) yn y flwyddyn 2001/2002 i awdurdodau lleol yng Nghymru i'w galluogi i ail-agor ffyrdd sirol sydd wedi eu cau, neu sydd o dan fygythiad, oherwydd tir-lithriadau*.* **W (WAQ9564)**

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Iechyd

**David Melding (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ymgynghori am ddrafft diwygiedig Strategaeth Iechyd Meddwl Cymru Gyfan. **(WAQ9563)**

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Ddiwylliant a Chwaraeon

**Dafydd Wigley (Caernarfon);** Pa drafodaethau a fu rhyngddi hi a Chyngor Celfyddydau Cymru ynghylch yr arian wrth gefn y maent wedi'i gronni yn eu cyfrifon; ac a wnaiff hi ddatganiad ar y mater hwn. **W (WAQ9581)**

**Dafydd Wigley (Caernarfon);** Pa drafodaethau a fu rhyngddi hi a Chyngor Chwaraeon Cymru ynghylch yr arian wrth gefn y maent wedi'i gronni yn eu cyfrifon; ac a wnaiff hi ddatganiad ar y mater hwn. **W (WAQ9582)**

**Dafydd Wigley (Caernarfon);** A wnaiff hi gyhoeddi tabl yn dangos, ar gyfer Cyngor Chwaraeon Cymru, faint o arian wrth gefn a oedd ganddynt yn eu cyfrifon ar 31 Rhagfyr 1997, 1998, 1999 a 2000; a faint o'r symiau hyn oedd wedi eu clustnodi ar gyfer ymrwymiadau gwario penodol a oedd yn gyfreithiol orfodadwy. **W (WAQ9579)**

**Dafydd Wigley (Caernarfon);** A wnaiff hi gyhoeddi tabl yn dangos, ar gyfer Cyngor Celfyddau Cymru, faint o arian wrth gefn a oedd ganddynt yn eu cyfrifon ar 31 Rhagfyr 1997, 1998, 1999 a 2000; a faint o'r symiau hyn oedd wedi eu clustnodi ar gyfer ymrwymiadau gwario penodol a oedd yn gyfreithiol orfodadwy. **W (WAQ9580)**